Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad 'Recriwtio a Chadw Athrawon' y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

MAWRTH 2026

Diolchwn i Aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) am eu hadroddiad cynhwysfawr.

Mae'n bwysig nodi'n glir y bydd angen gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill i weithredu sawl un o'r argymhellion. Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion a ddarperir o ddefnydd ac o gymorth.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r argymhellion sydd ynddo.

# Cynnwys

**Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor .................. 3**

Argymhelliad 1 .................. 3

Argymhelliad 2 .................. 5

Argymhelliad 3 .................. 6

Argymhelliad 4 .................. 6

Argymhelliad 5 .................. 7

Argymhelliad 6 .................. 8

Argymhelliad 7 .................. 9

Argymhelliad 8 .................. 10

Argymhelliad 9 .................. 11

Argymhelliad 10 .................. 12

Argymhelliad 11 .................. 12

Argymhelliad 12 .................. 14

Argymhelliad 13 .................. 14

Argymhelliad 14 .................. 16

Argymhelliad 15 .................. 17

Argymhelliad 16 .................. 17

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

## Argymhelliad 1

*Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am effeithiolrwydd y rhaglenni Teach First ac Athrawon Graddedig a ddarparwyd yn flaenorol yng Nghymru, gan gynnwys pa mor effeithiol oeddent wrth helpu amrywiaeth ehangach o bobl i ymuno â'r proffesiwn addysgu, a pham y penderfynwyd dod â'r gefnogaeth a roddwyd i'r rhaglenni hyn i ben.*

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn adolygiad o Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru a gynhaliwyd gan yr Athro Furlong, cyhoeddwyd *Addysgu Athrawon Yfory* yn 2015. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion yn yr adroddiad, a oedd yn sail i'n diwygiadau i AGA.

Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lwybr addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth, o'r enw Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (AGTP), a dyfarnodd gontract i Teach First i gynnal rhaglen beilot tair blynedd yng Nghymru. Roedd y rhaglen yn dyfarnu statws proffesiynol Statws Athro Cymwysedig (SAC) ond nid cymhwyster addysgu.

Yn 2016 cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig ar effaith yr AGTP yng Nghymru a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw welliant amlwg yng nghanlyniadau dysgwyr yn gyffredinol o fewn yr ysgolion a gymerodd ran y gellid ei briodoli'n uniongyrchol i waith Teach First a oedd yn rhagori ar ymyriadau eraill gan ysgolion ar gyfer gwella. Dywedodd yr adroddiad hefyd, er bod llawer o'r cyfranogwyr a gyflawnodd SAC (fel rhan o'r garfan gyntaf yn 2014) mewn swyddi addysgu ym mis Medi 2015, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r rhaglen, dim ond lleiafrif (32%) oedd yn dal i addysgu yng Nghymru. Roedd 40% mewn swyddi addysgu y tu allan i Gymru gyda gweddill y cyfranogwyr yn chwilio am swyddi addysgu neu waith heblaw addysgu. Roedd hyn yn golygu bod unrhyw fanteision o'r buddsoddiad AGTP yn y cyfranogwyr hyn yn cael ei golli i'r system addysg yng Nghymru.

Ym mis Medi 2016, penderfynwyd rhoi'r gorau i gynllun peilot AGTP Llywodraeth Cymru ac na fyddai'n cael ei ail-dendro y tu hwnt i flwyddyn academaidd 2016/17. Penderfynwyd nad oedd y peilot yn dangos gwerth am arian.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 ymrwymodd Teach First i drefniant gyda Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i ddarparu darpariaeth yn y rhanbarth.

Fel rhan o'r diwygiadau AGA yng Nghymru, datblygwyd meini prawf achredu newydd gan banel arbenigol AGA, a symudwyd y cyfrifoldeb rheoleiddiol am achredu rhaglenni yn erbyn meini prawf newydd Llywodraeth Cymru o'r hen Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i Fwrdd Achredu Addysg Athrawon newydd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Roedd yn ofynnol i bob darparwr AGA o dan y rheoliadau diwygiedig ennill achrediad yn erbyn y meini prawf newydd i ddyfarnu SAC o flwyddyn academaidd 2019/20 ymlaen. Gallai'r holl ddarparwyr AGA presennol a darparwyr newydd posibl wneud cais am achrediad yn 2017/18 yn barod i'w gyflwyno ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Ni wnaeth Teach First gais am achrediad ar y pryd. Mae Teach First yn cadw'r cyfle i gyflwyno rhaglen ar gyfer achrediad ond hyd yma maent wedi dewis peidio â gwneud hynny.

Yn 2017, gyda gweithredu argymhellion *Addysgu Athrawon Yfory* ar y gweill o ran llwybrau israddedig neu ôl-raddedig 'traddodiadol' i addysgu, nodwyd na fyddai'r Rhaglen Athrawon Graddedig (GTP) yn gallu bodloni'r gofynion ansawdd gwell o ran achrediad ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru.

Prif bwrpas y diwygiadau AGA oedd gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth AGA, cyflwyno dull newydd o AGA a sicrhau bod pob rhaglen yn bodloni ein dyheadau uchel ar gyfer AGA o'r radd flaenaf, wedi'i seilio ar dystiolaeth, yng Nghymru. Er mwyn i hyn ddigwydd, roedd yn hanfodol sicrhau ansawdd ar draws pob llwybr mynediad trwy achrediad. Felly, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwell llwybr ar sail cyflogaeth i addysgu ar gyfer graddedigion, gan wneud yn siŵr hefyd bod cymorth a darpariaeth o ansawdd uchel yn cael ei sicrhau. Y nod oedd cael cyfres o lwybrau i addysgu gyda'r un weledigaeth a dealltwriaeth o rôl ein gweithlu yn y dyfodol wrth gyflwyno Cwricwlwm Cymru, gan hefyd ddiwallu anghenion darpar athrawon talentog, beth bynnag fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Roedd angen llwybrau newydd i addysgu ledled Cymru, gan gynnwys cefnogaeth a datblygiad proffesiynol effeithiol, gan fodloni'r un gofynion o ansawdd uchel ar gyfer y meini prawf achredu newydd. Roedd hefyd yn un o brif amcanion y llwybrau newydd i gefnogi sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at raglenni AGA llawn amser 'traddodiadol'. Arweiniodd yr ymrwymiad hwn at ymarfer caffael cystadleuol agored, gyda'r Brifysgol Agored yn llwyddo i ennill y contract ac wedi hynny datblygu'r Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR) cyflogedig a'r TAR rhan-amser. Cafodd y ddau lwybr eu hachredu'n llwyddiannus gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon annibynnol CGA yn erbyn meini prawf newydd Llywodraeth Cymru. Ar ôl hynny, trosglwyddwyd y gefnogaeth o'r GTP i'r TAR Cyflogedig newydd gan adlewyrchu'r gofynion rheoleiddiol newydd ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i egwyddorion ein diwygiadau AGA a'r argymhellion o fewn *Addysgu Athrawon Yfory*.

Ni chasglwyd gwybodaeth am effeithiolrwydd Teach First a GTP o safbwynt cefnogi ystod ehangach o bobl i'r proffesiwn yn ystod cyflwyno'r rhaglen. Felly nid yw'r wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol: Roedd yr wybodaeth uchod wedi'i darparu o fewn cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 2

*Fel rhan o'i Chynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, bod Llywodraeth Cymru naill ai'n ymgymryd â gwaith neu'n comisiynu gwaith i weld a yw costau AGA yn rhwystro myfyrwyr rhag cael mynediad iddi a'i chwblhau'n llwyddiannus; p'un a yw'r rhwystrau hyn yn uwch ar gyfer grwpiau penodol o ddarpar fyfyrwyr; a pha opsiynau y gallai fod ar gael i ddileu'r rhwystrau ariannol hyn. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud o fewn cyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni i sicrhau bod unrhyw argymhellion ar gyfer newid yn ddichonadwy ac yn fforddiadwy ac y byddant yn gwella recriwtio a chadw.*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cytuno bod angen i ymgymryd ag AGA yng Nghymru fod yn ddeniadol ac yn fforddiadwy i ddarpar athrawon. Bydd y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol yn nodi ystod o gamau gweithredu i greu'r amodau ar gyfer proffesiwn addysg hynod ddeniadol ac uchel ei barch, gan gefnogi recriwtio, cadw a datblygu ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.

Mae disgwyl i'n gwerthusiad o bolisi AGA adrodd yn Haf 2026. Bydd yn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd a gwerth am arian ein cymhellion addysg gychwynnol athrawon presennol a datblygu cynigion ar gyfer cymhellion recriwtio a chadw yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol: Mae cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer gwerthuso polisi addysg gychwynnol athrawon, a fydd yn cynnwys ystyried effeithiolrwydd cymhellion, a datblygu polisi yn ehangach. Fodd bynnag, gallai fod goblygiadau ariannol sylweddol i weithredu rhai opsiynau, y byddai angen eu hystyried yn llawn.

## Argymhelliad 3

*Bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu amserlen ar gyfer y gwaith o archwilio'r gofyniad i sicrhau bod 50 y cant o radd yn berthnasol er mwyn ymuno ag AGA.*

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r mater hwn wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru fel rhwystr posibl i fynediad i ymgeiswyr sydd fel arall yn addas a chymwys i raglenni AGA. Mae'r gwaith i adolygu'r gofyniad mynediad hwn wedi dechrau fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r *Meini Prawf ar gyfer achredu Rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru*. Byddwn yn archwilio hyn yn fanylach gyda'r sector AGA gyda'r bwriad o newid y gofynion yn y drydedd fersiwn o'r ddogfen Meini Prawf, sydd i fod i'w chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd newidiadau yn cael eu gwneud lle ystyrir eu bod yn gadarn ac yn broffesiynol briodol, mewn consensws â'r sector AGA. Byddai'r drydedd fersiwn hon o'r Meini Prawf yn berthnasol i raglenni AGA o flwyddyn academaidd 2029/30 ymlaen. Fodd bynnag, pe bai cytundeb ymhlith Partneriaethau AGA Cymru, byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithredu unrhyw newidiadau i fynediad ledled Cymru yn gynharach.

**Goblygiadau ariannol:** Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 4

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ffactorau sy'n atal athrawon â sgiliau Cymraeg rhag eu defnyddio'n broffesiynol. Unwaith y byddant wedi nodi'r ffactorau hyn, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cymorth a roddir i'r athrawon hyn ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion ac yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.*

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cydnabod canfyddiad y pwyllgor bod rhai sgiliau yn y Gymraeg heb eu defnyddio yn y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys 1,590 o athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny yn eu swydd bresennol. Hefyd, ar hyn o bryd mae 9,805 o athrawon sydd â sgiliau Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch nad ydynt yn teimlo'n hyderus i addysgu yn Gymraeg ar hyn o bryd. Rydym yn cytuno bod angen i ni ddeall yn well y ffactorau a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol.

Rydym yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol, fel rhan o weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, i wella'r defnydd o ddata a gwybodaeth am y gweithlu i gefnogi cynllunio'r gweithlu. Bydd nodi cyfleoedd i gefnogi ymarferwyr nad yw eu sgiliau Cymraeg yn cael eu defnyddio yn eu swyddi presennol yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Rhaid i ni gydnabod y bydd rhai athrawon yn y sector cyfrwng Saesneg wedi ymsefydlu ac yn hapus yn eu hysgolion presennol, ac efallai na fyddant yn dymuno symud; fodd bynnag, gallai eu sgiliau Cymraeg fod yn werthfawr yn eu hysgolion presennol gan y bydd yn ofynnol i ysgolion sy'n Saesneg yn bennaf ddarparu mwy o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Yn ystod 2024, cynhaliodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ymarfer mapio gydag awdurdodau lleol i ddeall anghenion ymarferwyr ysgolion o ran datblygu eu Cymraeg. Defnyddiwyd data o Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol (SWAC) ochr yn ochr â gwybodaeth leol am ysgolion. Ar sail yr ymarfer hwn, datblygodd y Ganolfan raglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol Cymraeg ar gyfer ymarferwyr, gan ymgorffori'r Cynllun Sabothol, cyflogi tiwtoriaid ymroddedig i weithio o fewn awdurdodau lleol, ac ystod o ddulliau eraill o gyflwyno'r Gymraeg gan gynnwys hunan-astudio, rhithwir, wyneb yn wyneb, a phreswyl. Mae staff y Ganolfan Genedlaethol a thiwtoriaid lleol yn ymgysylltu'n barhaus ag awdurdodau lleol ac ysgolion i adolygu a hyrwyddo ei darpariaeth.

Bydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (yr Athrofa) yn cael ei sefydlu ym mis Awst 2027. Bydd ganddi ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i wella lefelau gallu yn y Gymraeg ymhlith y gweithlu addysg. Bydd hyn yn allweddol i wella hyfedredd a hyder staff sydd â sgiliau Cymraeg canolradd, neu staff rhugl nad ydynt yn hyderus i ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol, i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 5

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith sy'n hyrwyddo addysgu yng Nghymru yn nodi'n glir nad yw pobl sydd wedi cael eu hyfforddi i fod yn athrawon yn Lloegr yn wynebu rhwystrau i symud i Gymru i addysgu.*

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adolygu negeseuon ein hymgyrch, i weld a allwn oresgyn unrhyw gamsyniadau a'i gwneud yn gliriach y gallwch addysgu yng Nghymru os ydych wedi gwneud eich hyfforddiant athrawon yn Lloegr.

Ymgymerodd un o'n llysgenhadon ymgyrchu newydd â'i hyfforddiant athrawon yn Lloegr ac wedi hynny dewisodd ddysgu yng Nghymru oherwydd Cwricwlwm Cymru. Byddwn yn gweithio gyda'r llysgennad yma i helpu i chwalu unrhyw gamsyniadau.  Mae'r Cynllun Pontio, sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad o athrawon sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion uwchradd, hefyd yn targedu athrawon sy'n siarad Cymraeg y tu allan i Gymru a'r rhai sydd wedi bod y tu allan i'r proffesiwn ers pum mlynedd neu fwy.

Byddwn yn archwilio targedu pellach i'n galluogi i gyrraedd y rhai sy'n ymgymryd â'u hyfforddiant athrawon yn Lloegr gyda negeseuon priodol i'w hannog i ystyried addysgu yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 6

*Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'u Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, gynnwys gwaith ar y defnydd a wneir o gyfnodau sabothol mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, a sut y gall ysgolion a staff ysgol gael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd sabothol.*

Ymateb: Derbyn

Un o nodau'r Cynllun Gweithlu Addysg Strategol yw sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i fod yn ddeniadol. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn datblygu llwybrau gyrfa ar gyfer cynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr i nodi sut y gallant ddatblygu eu harbenigedd mewn rolau penodol neu symud ymlaen i ddod yn athrawon, yn arweinwyr canol neu uwch mewn ysgol neu ymgymryd â rolau arbenigol, cynghori neu bolisi yn y sector addysg.

Fel rhan o'r datblygiad hwn, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Dysgu, Cyngor y Gweithlu Addysg a'n prifysgolion i nodi cyfleoedd ar gyfer cyfleoedd sabothol neu secondiad i ymarferwyr ddatblygu neu ddefnyddio eu harbenigedd, gan ystyried gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn y maes hwn.

Rydym wedi sefydlu Dysgu gyda'r bwriad i'r sefydliad ddarparu ystod o gyfleoedd sabothol neu secondiadau i ymarferwyr i sicrhau bod y dysgu proffesiynol sy'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn seiliedig ar arferion proffesiynol effeithiol cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ariannu'r cynllun sabothol Cymraeg, sy'n rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gael eu rhyddhau o'r ysgol i ddysgu Cymraeg. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd secondio i ymarferwyr

i gefnogi datblygu polisi o fewn Llywodraeth Cymru a gwaith y Tîm Gwella Addysg.

Gallai ymarferwyr hefyd ddefnyddio'r radd Meistr Cenedlaethol neu Ddoethuriaeth mewn Addysg fel cyfle i gymryd cyfnod sabothol o'r gwaith i ddilyn diddordebau ymchwil.

Gall cyrff llywodraethu ysgolion gytuno ar ryddhau ymarferwyr ar gyfer unrhyw gyfnod sabothol neu secondiad. Mater i'r unigolyn fyddai ystyried unrhyw oblygiadau o ran eu hincwm.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 7

*Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i nodi arferion da ac yna sut mae'n helpu i ledaenu'r arferion da hyn ar draws y sector addysg yng Nghymru.*

Ymateb: Derbyn

Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethom gyhoeddi ein polisi newydd ar wella ysgolion sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer gwella system addysg Cymru ac atebolrwydd ynddi. Mae'n amlinellu ein model cenedlaethol newydd ar gyfer gwella ysgolion, sydd wedi'i wreiddio mewn gwell cydweithrediad a gweithio ar y cyd ar draws y system.

Mae'r polisi yn datgan ein nod ar gyfer cymunedau gwella lleol lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd, mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol, i sicrhau gwelliannau cynaliadwy yn lleol. Mae cydweithio pwrpasol, yn fertigol (3-16) ac yn llorweddol (e.e. uwchradd i uwchradd), yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr arsylwi ymarfer, dysgu gan gymheiriaid a chael gafael ar gymorth proffesiynol strwythuredig.

Bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan y safonau proffesiynol diwygiedig, y daeth yr ymgynghoriad arnynt i ben ym mis Ionawr 2026. Mae'r safon ar gyfer Cydweithio yn dweud y dylai gweithwyr proffesiynol fynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu ag ysgolion eraill a phartneriaid ehangach i wella effeithiolrwydd proffesiynol ac ehangu addysgeg ac ymarfer effeithiol gan gyfrannu at welliant ar draws y system gyfan.

Ochr yn ochr â threfniadau lleol, mae Tîm Gwella Addysg newydd wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol a rhagweithiol ag awdurdodau lleol a'u hysgolion, gan gysylltu anghenion lleol â blaenoriaethau

cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys nodi a rhannu enghreifftiau o arfer cryf a bydd symud ymlaen yn golygu cysylltu awdurdodau lleol â'i gilydd o amgylch meysydd gwella cyffredin.

Yn flynyddol, bydd y Tîm Gwella Addysg yn ymweld â phob awdurdod lleol unigol yn ystod tymor y gwanwyn i gynnal gweithdy â ffocws, wedi'i gynllunio i gefnogi datblygiad y modelau gwella lleol ynghyd â galluogi deialog broffesiynol bwrpasol gydag awdurdodau lleol a'u harweinwyr ysgolion am feysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwella. Bydd hyn yn helpu'r broses o nodi a rhannu arfer da ledled Cymru.

Mae'r Tîm Gwella Addysg wedi dod â swyddogion cynhwysiant a gwella awdurdodau lleol ynghyd i hwyluso'r broses o rannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth gyda'r nod o greu system fwy cyson ac ystwyth ledled Cymru. Bydd hwn yn fforwm parhaus i ychwanegu capasiti i'r system ar lefel ALl/llywodraeth. Bydd cysylltu hyn â'r enghreifftiau o ymarfer effeithiol a rennir gan Estyn fel rhan o'u hastudiaethau thematig hefyd yn gam pwysig.

Mae'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Penaethiaid yn chwarae rôl allweddol wrth gynrychioli llais penaethiaid. Trwy eu gwaith, mae enghreifftiau o ymarfer effeithiol wedi'u nodi a'u rhannu o fewn y grŵp. Mae'r penaethiaid hyn yn chwarae rhan allweddol wrth ledaenu'r wybodaeth hon trwy eu rhwydweithiau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol (gan gynnwys Estyn) ar draws ystod o feysydd polisi gyda'r bwriad o gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer da, er enghraifft, drwy blatfform Hwb.

Bydd Dysgu yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi awdurdodau lleol a'u hysgolion i nodi a rhannu arfer da mewn meysydd â blaenoriaeth genedlaethol benodol.

**Goblygiadau ariannol:** Darparwyd yr wybodaeth uchod o fewn cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 8

*Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r effeithiau y mae'r Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol wedi'u cael o ran lleihau llwyth gwaith a nodi ym mha feysydd o weithrediadau ysgolion y mae'r buddiannau hyn wedi'u gweld ynghyd â'r effeithiau ar y gweithlu.*

**Ymateb:** Derbyn

Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol (SWCG), grŵp o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r system, wedi cydweithio i nodi a gweithredu newidiadau i leihau'r llwyth gwaith ar gyfer ein gweithlu ysgolion. Canolbwyntiodd ei dri gweithgor ar Gyllid; Datblygu a Gweithredu Polisi; ac Adrodd ac Ymgysylltu. Datblygodd a chyflwynodd y grwpiau eu cynlluniau gweithredu eu hunain. Ar ôl diwedd gwaith y SWCG, gwnaeth y cadeirydd annibynnol, Anna Brychan, Deon Cynorthwyol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gyfres o argymhellion.

Canlyniadau allweddol y grwpiau oedd:

1. Datblygu a gweithredu asesiad effaith llwyth gwaith sydd wedi'i fabwysiadu gan adran addysg Llywodraeth Cymru ynghyd â chynllun i'w gyflwyno ymhellach i holl adran bolisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.
2. Sefydlu egwyddorion ar gyfer ymgysylltu sy'n darparu dulliau gweithredu ymarferol ynghylch llwyth gwaith sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, CLlLC a'r undebau llafur.
3. Gostyngiad yn y gofynion adrodd mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru o 50 i wyth.

Roedd y SWCG yn cydnabod y byddai effaith eu gwaith yn cael ei brofi yn bennaf gan arweinyddiaeth yn hytrach nag athrawon dosbarth. Un o argymhellion y Cadeirydd oedd i'r Cynllun Gweithlu Addysg Strategol ganolbwyntio ar yr effaith ar athrawon dosbarth, sydd wedi bod yn ystyriaeth flaenllaw wrth ddatblygu'r cynllun.

**Goblygiadau ariannol:** Roedd darparu'r wybodaeth uchod wedi'i gyflawni o fewn cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 9

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod lleihau llwythi gwaith athrawon dosbarth yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Strategol y Gweithlu Addysg. Dylai Cynllun y Gweithlu gynnwys camau gweithredu clir a mesuradwy sydd â'r nod o leihau llwythi gwaith athrawon cyn gynted â phosibl mewn ffordd ystyrlon ac amlwg. Dylai hefyd gynnwys ffyrdd o fesur llwyth gwaith. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag athrawon. Dylai hefyd edrych ar arferion gorau o'r gwledydd eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, a cheisio cymhwyso unrhyw rai o'r arferion hyn a fyddai'n gweithio yng Nghymru.*

**Ymateb:** Derbyn

Bydd lleihau llwyth gwaith yn flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol, a fydd yn nodi camau gweithredu lefel uchel gydag amserlenni dangosol. Fel rhan o weithredu'r cynllun, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol, i gytuno ar gamau gweithredu clir a mesuradwy ar gyfer yr effaith fwyaf. Byddwn yn ymwybodol o'r risg o greu llwyth gwaith ychwanegol trwy ei fesur, a byddwn yn sicrhau bod mesurau'n gymesur, yn adlewyrchu ymreolaeth athrawon, ac yn gysylltiedig ag amcanion penodol ac ystyrlon.

Goblygiadau ariannol: Gellir gwneud y gwaith o ddatblygu polisi o fewn cyllidebau presennol, a bydd yn talu sylw i unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud ag opsiynau polisi newydd.

## Argymhelliad 10

*Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad i ysgolion ac awdurdodau lleol y gall gweithgareddau nad oes angen iddynt gael eu gwneud yn yr ysgol, fel cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), gael eu gwneud oddi ar y safle. Wrth osod y disgwyliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir y dylid llunio amserlenni mewn ffordd a fyddai'n cefnogi gweithio oddi ar y safle ar gyfer CPA. Fel isafswm, lle mae'n rhaid i athrawon aros ar y safle, rhaid i amser CPA gael ei warchod fel nad oes modd tarfu arnynt na gofyn iddynt fynd i'r afael â materion eraill yn yr ysgol.*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu modelau gweithio hyblyg sy'n cefnogi lles ymarferwyr, nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr. Wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithlu Addysg Strategol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gallwn ddarparu gwell hyblygrwydd yn ymarferol, gan gynnwys lle y gallai fod yn eithaf priodol i amser CPA gael ei gymryd oddi ar y safle a'i drefnu mewn unedau o fath a fyddai'n cefnogi'r cyfle hwn.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 11

*Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir, cydlynol a chyffredinol ar reoli ymddygiad sy'n fanwl ac yn agor i gyn lleied o gamddehongli â phosibl ar gyfer pob math o leoliad ysgol yng Nghymru, fel mater o frys. Dylai'r canllawiau*

*hyn sicrhau bod dull cyson o fynd i'r afael ag ymddygiad yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru, yn enwedig o ran achosion difrifol o dorri rheolau ymddygiad.*

Ymateb: Derbyn

Un o'r pum cam gweithredu uniongyrchol a gyhoeddwyd yn dilyn yr Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol 2025 oedd ymrwymiad i ddiweddaru canllawiau cenedlaethol i ysgolion ar ymddygiad, er mwyn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb ledled Cymru. Mae cyflawni'r ymrwymiad hwn yn mynd rhagddo'n gyflym, fel yr amlinellwyd mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror.

Ym mis Medi 2025, cyhoeddwyd pecyn cymorth newydd ynghylch ymddygiad i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael ag ymddygiad. Mae'r adnodd hwn yn darparu mynediad at strategaethau rheoli ystafell ddosbarth a'r ymchwil ddiweddaraf ar ddulliau effeithiol o ymdrin ag ymddygiad. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol.

Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, fe wnaethom sefydlu dau fforwm pwrpasol, gan ddod ag ystod eang o ymarferwyr ac arbenigwyr at ei gilydd. Mae'r fforwm gwaharddiadau a chadw ar ôl wedi arwain adolygiad llawn o'r canllawiau presennol, tra bod y fforwm defnyddio ffonau symudol mewn ysgolion wedi cyd-greu canllawiau ac adnoddau ategol newydd. Mae gwaith y ddau grŵp bellach yn dirwyn i ben, gan sicrhau y bydd cymorth cryfach, mwy eglur ar gael i ysgolion cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Bydd diwygiadau yn y dyfodol i ganllawiau cenedlaethol ehangach ar ymddygiad yn cael eu llywio gan ymgysylltu parhaus ag ysgolion dan arweiniad partneriaid o brifysgolion ledled Cymru, i adlewyrchu arferion cyfredol yng Nghymru a thystiolaeth ryngwladol.

Y tymor hwn, gwnaethom hefyd gyhoeddi datblygiad adnoddau newydd ar gyfer Cymru gyfan i gefnogi diogelwch ysgolion. Mae hyn yn adeiladu ar y canllawiau a lansiwyd gan Gyngor Caerdydd yn yr hydref, i ddarparu cyngor syml ac ymarferol i ysgolion. Bydd Cyngor Caerdydd yn arwain ar waith gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu dull gweithredu cyson i ysgolion ledled Cymru ar gyfer rheoli achosion pan fo plant yn mynd ag arfau ar safle'r ysgol neu pan fo unrhyw amheuon rhesymol bod gan ddisgybl arf ar dir yr ysgol. Bydd yr adnoddau newydd yn helpu ysgolion i weithio'n agos gyda theuluoedd a gwasanaethau eraill fel y gellir rhoi'r cymorth cywir ar waith, ac ar yr un pryd sicrhau diogelwch i staff a dysgwyr.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 12

*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynnig digon o gyfleoedd cysgodi a mentora i athrawon dosbarth er mwyn iddynt ddeall yn well a ydynt am gamu i rolau arweinyddiaeth ysgolion.*

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn cydnabod canfyddiad y Pwyllgor bod gan benaethiaid ac uwch arweinwyr rôl bwysig i'w chwarae wrth ysbrydoli athrawon i ystyried symud i rolau arwain ac yn cytuno y byddai athrawon yn elwa ar gysgodi arweinwyr yn eu hysgolion eu hunain ac eraill i gael dealltwriaeth ymarferol o rolau arweinyddiaeth.

Bydd y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu i sicrhau bod nifer ddigonol o hyfforddwyr a mentoriaid sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i gefnogi darpar arweinwyr; sicrhau bod rhaglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol ar arweinyddiaeth ar gael drwy Dysgu, ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgymryd â chynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi dirprwyon a phenaethiaid yn eu hardaloedd. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r gwaith o ddyrannu lleoedd ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a'r llwybr arweinyddiaeth a'u datblygiad parhaus, yn ogystal â sicrhau bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cefnogi unigolion i geisio cael rolau arweinyddiaeth canol ac uwch a phrifathrawiaeth. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a Dysgu, fel rhan o'r gwaith hwn, i annog defnyddio cysgodi, hyfforddi a / neu fentora ar gyfer athrawon sy'n dymuno ystyried rolau arweinyddiaeth.

Trwy ein model gwella ysgolion cenedlaethol, dylai awdurdodau lleol hefyd fod yn galluogi datblygu'r gallu i arwain ar bob lefel o'r system. Dylai hyn gyflwyno cyfleoedd i arwain i ymarferwyr mewn rolau arweinyddiaeth ganol, a hynny o fewn ac ar draws ysgolion; mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i wella a mireinio sgiliau arweinyddiaeth mewn ysgolion.

**Goblygiadau ariannol:** Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 13

*Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd yn gwerthuso newidiadau i'r CPCP. Dylai unrhyw werthusiad o'r fath sicrhau ei fod yn ystyried a yw'r cwrs yn*

*helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn bennaeth effeithiol; ac a yw'r cwrs yn darparu gwerth da.*

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP), a gyhoeddwyd yn 2023, mae'r CPCP wedi'i ailgynllunio i sicrhau bod Cymru'n parhau i ddatblygu cyfres gref o arweinwyr ysgolion medrus iawn sy'n gallu cyflawni ein hagenda diwygio addysg genedlaethol a sicrhau canlyniadau gwell i ddysgwyr. Mae'r rhaglen newydd yn adlewyrchu'r angen am benaethiaid sydd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer cymhlethdod a chyfrifoldeb cynyddol arwain ysgol. Mae proses asesu drylwyr wedi'i datblygu ar gyfer cael mynediad i'r rhaglen newydd, er mwyn sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny sy'n barod ar gyfer prifathrawiaeth sy'n cael eu derbyn. Mae Dysgu yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol fel rhan o'r broses recriwtio ac mae'n datblygu ystod o raglenni arweinyddiaeth ganol ac uwch fel rhan o lwybr arweinyddiaeth i baratoi ymgeiswyr yn y dyfodol ar gyfer CPCP.

Mae'r CPCP newydd yn rhaglen 18 mis sy'n cyfuno profiad ymarferol o arwain mewn amrywiaeth o amgylcheddau â dysgu proffesiynol strwythuredig, ac mae'n cynnwys elfen gref o hyfforddi a mentora. Mae wedi'i seilio ar y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, ac mae'n canolbwyntio'n gryf ar sut mae penderfyniadau arweinyddiaeth yn effeithio ar addysgu, dysgu a chynnydd dysgwyr.

Dechreuodd peilot y CPCP diwygiedig ym mis Ionawr 2025 a dechreuodd ail garfan ym mis Medi 2025. Cymerodd Dysgu gyfrifoldeb llawn am gyflawni'r CPCP ym mis Rhagfyr 2025 ac mae recriwtio yn mynd rhagddo ar gyfer trydedd garfan i ddechrau ym mis Medi 2026.

Bydd Dysgu yn parhau i fireinio cynnwys a strwythur y CPCP wrth fynd ati i baratoi i gyflawni ar gyfer y drydedd garfan, wedi'i lywio gan y ddwy garfan beilot gyntaf. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r gwerth a ddarperir gan wahanol elfennau y rhaglen, er mwyn sicrhau bod cynifer o gyfranogwyr â phosibl yn gallu cymryd rhan heb beryglu ansawdd ac uniondeb y rhaglen.

Bydd Dysgu yn datblygu trefniadau sicrhau ansawdd a monitro effaith cadarn ac yn cymhwyso'r rhain i'r CPCP yn ogystal â'i ddarpariaeth arall. Ar hyn o bryd, mae Dysgu yn recriwtio aelodau ar gyfer Bwrdd Cynghori i helpu i ddatblygu'r cymhwyster ymhellach ac i oruchwylio prosesau sicrhau ansawdd. Bydd y gwaith hwn yn ategu gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol cadarn a bydd yn cynnwys comisiynu adolygiad allanol i sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal.

Byddwn yn ystyried yr angen am werthusiad annibynnol, ffurfiol o'r CPCP diwygiedig yn y dyfodol, pan fydd modd asesu ei effaith ar y ddwy garfan gyntaf o ddarpar benaethiaid, a phan fydd y trefniadau ar gyfer y rhaglen ddiwygiedig wedi'u sefydlu'n dda.

Goblygiadau ariannol: Darparwyd yr wybodaeth uchod o fewn cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 14

*Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i nodi'r ffactorau sy'n achos anghyfartaledd rhwng y rhywiau mewn rolau arweinyddiaeth ysgolion ac yna'n llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ffactorau sydd o fewn cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod nad yw canran y penaethiaid benywaidd (62%) yn gyson â chanran y menywod yn y gweithlu addysgu yn ei gyfanrwydd (76%). Nodwn nad yw'r gwahaniaeth mor amlwg ar lefelau dirprwy bennaeth (70% benywaidd) a phennaeth cynorthwyol (65% benywaidd).

Rydym yn derbyn nad yw'r rhesymau dros hyn wedi'u sefydlu, a bod tystion yn awgrymu y gallai ffactorau cymdeithasol (megis disgwyliad i fenywod ymgymryd yn anghymesur â gofal plant) gyfrannu at yr anghyfartaledd a'i bod yn aneglur a oedd menywod yn ymgeisio'n aflwyddiannus am swyddi pennaeth neu eu bod yn dewis peidio â gwneud cais.

Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i Argymhelliad 13 uchod, fel rhan o'r Cynllun Gweithlu Addysg Strategol, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal gwaith cynllunio olyniaeth ar gyfer swyddi penaethiaid yn eu hardaloedd. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith hwn yn ystyried anghyfartaledd rhwng y rhywiau ac yn archwilio'r ffactorau sy'n atal menywod rhag gwneud cais neu rhag cael eu penodi i rolau arwain a phrifathrawiaeth.

Byddwn hefyd yn gofyn i Dysgu ystyried yr anghyfartaledd rhwng y rhywiau wrth ymgysylltu ag athrawon ac awdurdodau lleol i hyrwyddo'r CPCP i garfannau yn y dyfodol ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynllunio ei ddarpariaeth arweinyddiaeth. Byddwn hefyd yn annog Dysgu i sicrhau bod menywod yn amlwg fel siaradwyr a hyfforddwyr o fewn rhaglenni arweinyddiaeth, i wasanaethu fel modelau rôl.

Goblygiadau ariannol: Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 15

*Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cynllun Strategol y Gweithlu Addysg yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn adlewyrchu'n well poblogaeth Cymru a'r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu.*

**Ymateb:** Derbyn

Bydd sicrhau bod ein hymarferwyr yn deall pwysigrwydd canolog yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ac yn dod o'r holl gymunedau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu, gan gynnwys cefndiroedd duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn un o egwyddorion arweiniol y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol. Bydd ein gweithredoedd i hyrwyddo'r proffesiwn yn adlewyrchu'r egwyddor hon a bydd yn adeiladu ar ein gweithgarwch presennol.

Mae ein hymgyrch bresennol Addysgu Cymru yn hyrwyddo addysgu fel gyrfa i ystod amrywiol o ddarpar athrawon. Rydym yn adolygu ac yn adnewyddu'r ymgyrch a gwefan Addysgwyr Cymru yn barhaus a byddwn yn sicrhau bod pob gweithgaredd yn hyrwyddo proffesiwn sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd diweddariad o ran recriwtio a chefnogaeth i fyfyrwyr AGA du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n nodi'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu addysgu.

**Goblygiadau ariannol:** Mae modd defnyddio cyllidebau sy'n bodoli eisoes i ariannu'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 16

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff cenedlaethol i bennu cyflog, telerau ac amodau ar gyfer staff cymorth.*

**Ymateb:** Derbyn

Yn unol â'r Datganiad Ysgrifenedig ar 3 Medi, mae gwella cyflogau ac amodau ar gyfer ein staff cymorth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun Gweithlu Addysg Strategol. Mae'r unigolion hyn yn rhan allweddol o addysg dysgwr ac yn cefnogi rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn ysgolion ac yn haeddu, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol, cael eu cydnabod, eu talu a'u trin yn deg am y gwaith gwych y maent yn ei wneud.

Ailddatganwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu Corff Negodi Staff Cymorth Ysgolion ar 2 Rhagfyr 2025, yn lansiad adroddiad UNISON Cymru 'Amser i werthfawrogi staff cymorth ysgolion'. Mae gwaith paratoi ar gyfer deddfwriaeth eisoes wedi dechrau.

Goblygiadau ariannol: Byddai goblygiadau ariannol sefydlu corff newydd yn cael eu cynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) fel rhan o Fil yn y dyfodol.